# REES, SARAH JANE ('Cranogwen '; 1839 - 1916), ysgolfeistres, bardd, golygydd, a sefydlydd 'Merched y De'



**Enw:** Sarah Jane Rees
**Ffugenw:** Cranogwen
**Dyddiad geni:** 1839
**Dyddiad marw:** 1916
**Partner:** Jane Thomas
**Rhiant:** Frances Rees
**Rhiant:** John Rees
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** ysgolfeistres, bardd, golygydd, a sefydlydd 'Merched y De'
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Dyngarwch; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi; Crefydd
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 9 Ionawr 1839 yn Llangrannog, Sir Aberteifi, merch capten llong. Cafodd ei haddysg i gychwyn mewn ysgol yn Llangrannog a gedwid gan un Hugh Davies, a ddysgodd iddi elfennau morwriaeth ac ychydig Ladin. Bu hefyd mewn ysgolion yn Aberteifi, Ceinewydd, Lerpwl, ac yn Llundain, lle yr aeth i ddysgu morwriaeth, pwnc y bu hi yn ei ddysgu, ynghyd â mathemateg, mewn ysgol yn Llangrannog a agorodd hi ei hun ac a fynychid gan wyr y môr, etc. Yr oedd yn un o hyrwyddwyr cyntaf dysgu system y tonic-solffa a daeth yn un o arholwyr lleol y Tonic Sol-fa College. Dechreuodd bregethu hefyd a bu'n darlithio llawer.

Enillodd y wobr am gân ar y testun, ' Y Fodrwy Briodasol,' yn eisteddfod genedlaethol Aberystwyth, 1865, gan guro ' Islwyn ' a ' Ceiriog ' yn y gystadleuaeth honno. Bu'n gyd-fuddugol yn eisteddfod genedlaethol y flwyddyn ganlynol ac enillodd y gadair mewn eisteddfod yn Aberaeron. Golygodd gylchgrawn i ferched, *Y Frythones*, 1878-91. Yn 1901 cychwynnodd y mudiad a elwir ' Undeb Dirwestol Merched y De.'

Bu farw 27 Mehefin 1916. Coffeir ei gwaith gan ' Ysgoloriaeth Cranogwen ' yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.

[Nodyn golygyddol 2020: Bu Cranogwen yn cyd-fyw am ugain mlynedd olaf ei hoes gyda'i chymar, Jane Thomas, yn Llangrannog.]

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

Sarah Jane Rees, *Caniadau Cranogwen* (Dolgellau 1870)

Sarah Rowlands, NLW MS 2142D: Cranogwen

David Glanaman Jones, *Cofiant Cranogwen* (Caernarfon 1932)

## Darllen Pellach

Beryl H. Griffiths, *Mamwlad* (Gwasg Carreg Gwalch Llanrwst 2016), tt.59-85

Death of Caranogwen, *Carmarthen Journal*, 30 June 1916, t.5

Cranogwen - menyw o flaen ei hamser, gwefan Ysgol Penboyr

Elen Haf Jones, Bywyd a gwaith Cranogwen: O forwr i fardd, a llawer mwy ..., blog Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 15 Mawrth 2019

Erthygl Wicipedia: Sarah Jane Rees (Cranogwen)

## Delweddau

LlGC: Cranogwen

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW ex 2935: Cerddi i Maggie Eurona gan Cranogwen, [1905]

VIAF: 13694235

Wikidata: Q7422438

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu